NHS Digital

# Archwiliad Diabetes Cenedlaethol i Ofal Traed (NDFA)

## Pam yr ydych wedi cael y daflen wybodaeth hon?

Mae eich clinig gofal traed yn cymryd rhan mewn prosiect pwysig i wirio bod pobl â diabetes yn cael gofal da. Mae prosiect yr NDFA yn casglu gwybodaeth am y gofal y mae pobl yn ei gael ar gyfer wlserau ar eu traed.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn helpu eich clinig i wybod a oes angen iddo wella ei wasanaeth gofal traed.

## Pam y mae angen i chi wybod am hyn?

Hoffem ddefnyddio'r wybodaeth am y gofal y mae pob claf yn ei gael gan bob clinig gofal traed yng Nghymru a Lloegr fel ein bod yn cael darlun llawn o ofal traed diabetes.

Bydd hyn yn golygu casglu gwybodaeth am y gofal yr ydych wedi ei gael ar gyfer yr wlser ar eich troed.

## Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu amdanoch?

Dylai traed pawb sydd â diabetes gael eu harchwilio'n rheolaidd yn y feddygfa deulu neu'r clinig diabetes. Os bydd problemau'n codi, efallai y bydd angen i chi fynd i glinig arbenigol ac mae'n bosibl y bydd angen i chi gael eich derbyn i'r ysbyty hyd yn oed.

Hoffem wybod sut beth yw gofal traed ledled yr holl wasanaethau gwahanol hyn. Mae hynny'n golygu bod angen i ni edrych ar wybodaeth am eich gofal gan yr holl weithwyr proffesiynol yr ydych wedi eu gweld.

Pan fyddwch yn dod i'r clinig traed, bydd aelod o staff yn casglu data am eich gofal traed. Bydd y data a gesglir yn y clinig yn cael eu cysylltu â data eraill a gesglir o'r ysbyty mewn perthynas ag unrhyw droeon y gallech fod wedi cael eich derbyn i'r ysbyty. Er mwyn cysylltu'r wybodaeth hon, bydd eich rhif GIG (mae gan bawb rif unigryw a ddefnyddir gan y GIG) a'ch dyddiad geni yn cael eu darparu i NHS Digital




i'n galluogi i edrych ar y gofal yr ydych wedi ei gael gan bob gwasanaeth – eich meddyg teulu, y clinig traed a'r ysbyty.

I gael manylion llawn am yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu, gofynnwch i'r unigolyn a roddodd y daflen hon i chi neu cysylltwch â thîm prosiect yr NDFA.

## Sut y mae'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch yn cael ei defnyddio?

Mae'r wybodaeth a gesglir amdanoch yn cael ei hastudio ar y cyd â'r wybodaeth gan bob gwasanaeth gofal traed diabetes arall yng Nghymru a Lloegr.

Bydd y data a gasglwn gan eich clinig gofal traed yn cael eu hanfon i NHS Digital trwy rwydwaith diogel. Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys eich rhif GIG a'ch dyddiad geni.

Bydd NHS Digital yn defnyddio eich rhif GIG a'ch dyddiad geni i gysylltu'r wybodaeth a gesglir gan eich clinig gofal traed â gwybodaeth arall a gofnodwyd am eich diabetes ac a gedwir gan NHS Digital.

Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys eich HbA1c a'ch pwysedd gwaed (o'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol), ynghyd ag unrhyw lawdriniaethau yr ydych wedi eu cael, neu dderbyniadau eraill i'r ysbyty. Mae'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yng nghronfa ddata'r Ystadegau Cyfnodau Gofal mewn Ysbyty (HES) ar gyfer Lloegr neu Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW), a'r Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol (NVR). Yn ogystal, bydd NHS Digital yn cysylltu eich rhif GIG a'ch dyddiad geni â data marwolaethau, sy'n cynnwys dyddiad marwolaeth. Darperir y data marwolaethau gan NHS Digital ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ar ôl i'ch gwybodaeth gael ei chysylltu, bydd eich rhif GIG a'ch dyddiad geni yn cael eu dileu, gan wneud y data'n **anhysbys**.

Bydd yr wybodaeth a gesglir gan y prosiect NDFA yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, a gyhoeddir ar wefan y prosiect NDFA.

Ni fydd gwybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi, neu'n ei rhannu, fyth yn dynodi unigolyn penodol. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'r data archwilio i ddibenion ymchwil, ond gwneir hyn dim ond os bydd yn cael ei ganiatáu dan y gyfraith ac yn bodloni'r rheolau llym sydd ar waith i warchod eich preifatrwydd.

## Sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel?

Mae yna reolau llym iawn yn bodoli ynghylch yr hyn sy'n digwydd i'ch gwybodaeth. Rhaid i staff yn eich clinig gofal traed gael caniatâd arbennig i allu defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer y prosiect hwn, a rhaid iddynt gytuno i ddefnyddio'r wybodaeth mewn modd priodol. Rhoddir eu cyfrinair eu hunain i bob aelod o staff, a fydd yn caniatáu iddynt nodi eich gwybodaeth ar ffurflen sydd i'w chael ar wefan ddiogel iawn. Bydd yr holl ddata a gesglir ac a ddefnyddir yn y prosiect NDFA yn cael eu dinistrio mewn modd diogel bum mlynedd wedi diwedd y prosiect.

## Dweud 'dim diolch'

Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y modd y gallwn gasglu eich data wedi newid. O ganlyniad, ni ofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio mwyach.

Fodd bynnag, os nad ydych am i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio, rhowch wybod i'ch clinigydd. Gellir dileu cofnodion blaenorol hefyd, ond os ydych wedi mynychu clinigau mewn lleoliadau gwahanol, bydd angen i chi naill ai roi gwybod iddynt yn unigol neu gysylltu ag NHS Digital.

Ni fydd hyn yn effeithio ar eich gofal.

NHS Digital

Gwybodaeth Bwysig i Gleifion

# Yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol i Ofal Traed (NDFA)

## GWYBODAETH BELLACH

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol i Ofal Traed (NDFA), gofynnwch i'ch tîm gofal traed. Gallwch hefyd gysylltu fel a ganlyn:

**E-bost:** enquiries@nhsdigital.nhs.uk
**Ffôn:** 0300 303 5678
**Gwefan:** National Diabetes Foot Care Audit - NHS Digital
**Cyfeiriad:** 7 and 8 Wellington Place, Leeds, West Yorkshire, LS1 4AP

DIABETES UK
KNOW DIABETES. FIGHT DIABETES.

HQIP
Healthcare Quality Improvement Partnership